Oriel Davies Gallery, The Park, Newtown, Powys SY16 2NZ
T: + 44 (0) 1686 625041 Fax: + 44 (0) 1686 623633 Registered Charity No: 1034890
GALLERY·CAFE·SHOP·ORIEL·CAFFI·SIOP
www.orieldavies.org
For further details and press images, please email Alex Boyd, Curator: alex@orieldavies.org

Fantasy is a Place Where it Rains
Patrick Farmer and Sarah Hughes
17 Ebrill - 9 Mehefin 2010

Mae'r artistiaid Patrick Farmer a Sarah Hughes o'r Drenewydd, sy'n gweithio ar y cyd, yn ceisio cipio cylchoedd bywyd cyfnewidiol Afon Hafren. Bydd y rhain yn cael eu dangos i gynulleidfa Test Bed drwy gyfuniad o luniadau, recordiadau o synau hydroffonig a deunydd ffisegol i ddangos cwrs hunanreolaethol yr afon o'i tharddiad yng nghoedwig Hafren at ben ei thaith ym Môr Hafren.

Caiff cyfres o 'luniadau afon' eu cyflwyno i ni sy'n dangos toreth o weadau tebyg i'r afon. Efallai nad yw'r rhain yn cael eu gweld bob tro fel cydrannau endidau hylif, er y mae'n amlwg mai rhan yn unig o'r stori yw'r lluniadau llonydd. Amrywiaeth gweadau'r afon yw'r peth mwyaf amlwg ar hyd ei chwrs. Ei gwahanol begynau yw'r enghreifftiau mwyaf dramatig - y dechreuad diarffordd, corslyd a'r diwedd diwydiannol cyflym.

Mae'r afon yn hollol wahanol ar ei ffurf sain. Mae sŵn yn cael ei greu gan rwystrau ar wely'r afon ac er ein bod yn dechrau gwau'r darnau at ei gilydd, mae'r afon yn dal i lithro o'n gafael.

Mae amrywiaeth y cyfryngau'n adlewyrchu ymatebion unigol yr artistiaid i'r afon a, drwy gasglu'r gwaith at ei gilydd, rhoddir syniad i'r gynulleidfa o gymhlethdod bodolaeth fyrhoedlog y ffenomenon naturiol hon. Mae'r gwaith aml ddisgyblaeth hefyd yn rhoi golwg fwy realistig o nodweddion aml wynebog yr afon a'i symudiadau rhythmig.

Mae hanesion daearyddol a diwylliannol yn ystyriaethau pellach a hefyd, y ffyrdd y gellid dangos yr afon. Drwy'r gweithiau hyn, mae'r artistiaid yn gobeithio y bydd y gynulleidfa'n dechrau gwerthfawrogi'r angen am gynyddu ymwybyddiaeth, ac y gallem ddechrau holi ynghylch ein sefyllfa mewn perthynas â'r hyn sydd o'n cwmpas.

Mae'r holl waith yn hawlfraint Patrick Farmer a Sarah Hughes

.....

Nodiadau i Olygyddion:

1. Bydd rhagolwg o'r arddangosfa'n cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn, 17 Ebrill 2010

2. Mae Test Bed yn Oriel Davies yn hyrwyddo a'n arddangos artistiaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a'r Gororau.

3. Oriel gelf annibynnol gyhoeddus yw Oriel Davies sydd wedi'i lleoli yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r Oriel yn trefnu a'n mynd ag arddangosfeydd arloesol, sy'n cynnwys artistiaid o Gymru, o rannau eraill o'r DU ac artistiaid rhyngwladol, ar deithiau, ac mae'n darparu rhaglen addysg gelf gynhwysfawr. Mae Oriel Davies yn Elusen Gofrestredig rhif 1034890, sy'n derbyn refeniw gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir Powys.

4. Yn 2008, derbyniodd Oriel Davies Wobr Cwmni Beacon 2008-10 am arbenigedd ac arloesedd.

5. Rhagor o wybodaeth a lluniau i'r wasg: cysylltwch ag Antony Mottershead
 - testbed@orieldavies.org neu Alex Boyd - alex@orieldavies.org

Esmée Fairbairn
The National Lottery
Powys